Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Arolygiad Gwerthuso Perfformiad o Gyngor Sir Ceredigion

Mawrth 2023

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023 WG47562 Digital ISBN 978-1-80535-999-9

Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad gwerthuso perfformiad o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion (yr awdurdod lleol) ym mis Mawrth 2023. Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'r ddeddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru.

Gwnaethom geisio ateb y cwestiynau canlynol yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).

1. Pobl – llais a rheolaeth

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu cymwys, hynod fedrus yn cael ei gefnogi i weithio tuag at weledigaeth a rennir?

2. Atal

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo cydnerthedd o fewn cymunedau ac mae pobl yn cael eu helpu i gyrraedd eu potensial drwy annog a helpu pobl sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas?

3. Llesiant

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff pobl eu diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

I ba raddau y mae pobl yn cael eu helpu i reoli eu llesiant a gwneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn a byw'n annibynnol cyhyd â phosibl?

4. Partneriaethau

I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd uchel a chwbl integredig i bobl?

A yw pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal?

Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau'r awdurdod lleol i helpu pobl a'u hamddiffyn. Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys:

- Gwerthuso profiad oedolion a phlant ar adeg yr arolygiad gwerthuso perfformiad.
- Gwerthuso profiad pobl a'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni drwy eu cysylltiad â gwasanaethau.
- Tystiolaeth o'r gwersi a ddysgwyd gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid o brofiadau diweddar a chynlluniau i ddatblygu a gwella gwasanaethau.
- Ystyried sut mae'r awdurdod lleol yn rheoli cyfleoedd a risgiau wrth gynllunio a darparu gofal cymdeithasol ar lefelau unigol, gweithredol a strategol.

1. Crynodeb

1.1. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn yr ail flwyddyn o'i strategaeth drawsnewid bum mlynedd o dan ei raglen Llesiant Gydol Oes (LlGO). Mae'r model yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar, atal a llesiant, gan geisio lleihau'r gofyn am wasanaethau statudol. Mae'r model wedi'i drefnu o amgylch tri Phorth – y Porth Cymorth Cynnar (PCC) sef y gwasanaethau cymorth cynnar ac atal, y Porth Gofal (PG) sy'n gyfrifol am frysbennu ac asesu, ymyriadau tymor byr a diogelu, a'r Porth Cynnal (PC) sy'n ymgorffori'r elfen gofal a chymorth wedi'u cynllunio o wasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn rhan allweddol o un o amcanion corfforaethol ehangach yr awdurdod lleol, sef creu cymunedau gofalgar ac iach, fel yr amlinellir yn ei Gynllun Corfforaethol 2022-2027.

1.2. Mae'r model LlGO yn gweithredu ar sail 'pob oedran'. Y weledigaeth yw y bydd timau yn gallu ystyried anghenion y teulu cyfan a gweithio ar draws y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau plant, ond gyda chydnabyddiaeth bydd angen i rai ymarferwyr gadw arbenigedd.

1.3. Yn yr un modd â llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae Cyngor Sir Ceredigion yn wynebu cyfnod heriol mewn perthynas â darparu gofal cymdeithasol. Mae llawer o'r pwysau a wynebir gan yr awdurdod lleol yn adlewyrchu materion cenedlaethol gan gynnwys lefelau uchel o alw a phobl ag anghenion mwy cymhleth, gan gynnwys effaith yr argyfwng 'costau byw'.

1.4. Roedd diffygion difrifol yn y gweithlu o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol ac absenoldeb ymhlith staff wedi arwain at golli staff profiadol a dibyniaeth ormodol ar weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a gweithwyr cymdeithasol o asiantaethau. Mae cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol

cadarn ar gael i'r gwasanaethau cymdeithasol yng Ngheredigion. Cynhaliwyd yr arolygiad ar adeg pan oedd uwch-arweinwyr, rheolwyr a gwleidyddion wedi cydnabod y camau gweithredu a'r adnoddau sylweddol y byddai eu hangen i sicrhau y gallai'r awdurdod lleol gyflawni'r holl gyfrifoldebau statudol o ran diogelu plant. Comisiynodd yr awdurdod lleol Dîm Gofal a Reolir a oedd yn cynnwys saith gweithiwr cymdeithasol, rheolwr tîm a gweinyddydd er mwyn darparu capasiti ychwanegol. Yn ogystal, caiff gweithwyr asiantaeth eu defnyddio i ymgymryd â swyddi gwag yn y timau oedolion. Yn yr un modd er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir mae asesiadau therapi galwedigaethol yn eu cwblhau ar sail contract allanol.

1.5. Ers comisiynu tîm gofal a reolir, mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc bellach yn cael cefnogaeth a gwasanaethau gan yr awdurdod lleol mewn modd amserol ac yn eu dewis iaith, maent yn cael eu cefnogi i gynnal eu diogelwch a'u llesiant a chaiff eu lleisiau eu clywed.

1.6. Ceir uwch-arweinyddiaeth gref o fewn y gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd staff, rhanddeiliaid a phartneriaid wrthym fod yr uwch-arweinwyr yn weladwy, yn hygyrch, yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. Dengys yr adborth a gasglwyd gennym ddiwylliant sy'n canolbwyntio ar lesiant, meithrin a chynnal cydberthnasau, a sicrhau canlyniadau diogel i bobl.

1.7. Mae cynlluniau ar waith i atgyfnerthu'r arfer o ddefnyddio Arwyddion Diogelwch ('Signs of Safety' neu 'SOS' yn Saesneg) fel model i ategu'r strategaeth LlGO. Nod yr hyfforddiant SOS yw creu sylfaen gref er mwyn datblygu, gwella a myfyrio ymhellach ar ymarfer gwaith cymdeithasol. Er bod y weledigaeth strategol yn glir, a bod hyfforddiant wedi'i gwblhau cyn y pandemig, mae angen gwneud rhagor o waith cyn y bydd wedi'i rhoi ar waith yn llawn. Cydnabyddir bod y cyfnod adfer yn dilyn COVID-19, heriau recriwtio, natur fregus y gweithlu a'r cynnydd o ran galw oll wedi effeithio ar y broses o roi'r LlGO ar waith.

1.8. Mae'r awdurdod lleol yn dangos ffocws cryf ar weithio mewn partneriaeth. Clywsom am frwdfrydedd a pharodrwydd i gydweithio ar lefel strategol a gwelsom enghreifftiau lle y bu trefniadau o'r fath o fudd i bobl.

Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Cyflwynir canfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2. Pobl – Llais a Dewis

Cryfderau:

2.1. I lawer o bobl, caiff eu lleisiau eu clywed a chaiff eu canlyniadau personol eu cofnodi. Roedd enghreifftiau lle roedd ymarferwyr yn gweithio mewn ffordd gydweithredol a chyson â phobl i gefnogi'r pethau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael eu deall, bod eu llais wedi cael ei glywed a bod trefniadau cyfathrebu effeithiol a rheolaidd ar waith. Dywedodd 82% o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg pobl fod yr awdurdod lleol wedi eu trin ag urddas a pharch drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser.

2.2. Gall pobl gyfathrebu yn eu dewis iaith. Roedd tystiolaeth bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ddarparu, ac roedd rheolwyr yn hyderus bod digon o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar waith.

2.3. Roedd gwasanaethau eirioli yn cael eu hystyried a'u cynnig mewn modd rhagweithiol, yn enwedig yng nghyd-destun cynadleddau amddiffyn plant ac adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae'r ffaith bod y gwasanaethau hyn ar gael yn hwylus yn gryfder sy'n parhau o'n gwiriad sicrwydd blaenorol yn 2021. Mae eiriolwyr yn mynychu fforymau gwneud penderfyniadau yn rheolaidd er mwyn cyfleu safbwyntiau'r plant. Dywedodd rhai plant sy'n derbyn gofal wrthym am anawsterau roeddent yn eu cael weithiau wrth gael cymorth ac am ddiffyg tryloywder ynghylch eu hawliau a'u hawliadau. Roedd rhai o'r plant yn teimlo eu bod yn gwneud penderfyniadau heb gymorth ar adegau allweddol yn eu bywydau. Gall fod angen atgyfnerthu'r maes hwn ymhellach. Yn y gwasanaethau oedolion, roedd tystiolaeth bod pobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr anffurfiol i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae ymarferwyr yn y gwasanaethau oedolion yn deall pwysigrwydd gwasanaethau eirioli. Nododd y darparwr eirioli ffurfiol efallai, ar adegau gellid bod wedi ei gynnwys yn gynt.

2.4. Mae pobl yn cael y cyfle i deilwra a rheoli eu gofal a'u cymorth eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, yn yr un modd ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, mae'n anodd recriwtio cynorthwywyr personol i roi cymorth drwy daliadau uniongyrchol. Clywsom sut mae'r gwasanaeth wrthi'n ceisio recriwtio cynorthwywyr personol newydd drwy wefan a system feddalwedd newydd.

2.5. Mae gan Geredigion weithlu ymroddedig sy'n ymateb i lwyth gwaith cynyddol o ran cymhlethdod ac o ran nifer yr achosion. Cyfeiriodd 77% o'r unigolion a ymatebodd i'n harolwg staff dienw at yr heriau hyn, ond gan nodi eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr. Clywsom hefyd fod y staff yn gwerthfawrogi hygyrchedd uwch-reolwyr. Dywedodd 74% o'r staff eu bod yn gallu ymdopi â'u llwythi gwaith.

2.6. Mewn ymateb i'r heriau y mae'r awdurdod lleol yn eu hwynebu wrth recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwysedig, ceir ffocws ar ymdrechion i ddatblygu aelodau o staff mewnol. Yn galonogol, clywsom fod yr awdurdod lleol wedi bod yn gweithio'n agos â Phrifysgol Aberystwyth i geisio creu cwrs gwaith cymdeithasol i hyfforddi'r

gweithlu sydd ei angen ar gyfer y dyfodol. At hynny, nodwn fod yr awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth ofalus i gyflogi gweithwyr o dramor. Byddent eisiau i'r gweithwyr hynny ymrwymo i ddysgu Cymraeg ac maent yn ymwybodol y bydd angen rhoi cymorth iddynt integreiddio i'r diwylliant lleol.

2.7. Roedd y rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol ac yn cael cymorth i arwain. Penodiad dros dro yw'r unigolyn sy'n ymgymryd â swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae'r awdurdod yn chwilio am Gyfarwyddwr parhaol er mwyn rhoi gwell sefydlogrwydd i'r uwch-dîm arwain.

Meysydd i'w Gwella:

2.8. Dywedodd rhai pobl wrthym, gan gynnwys gofalwyr, fod eu gweithwyr cymdeithasol yn neilltuo amser i siarad â nhw a bod hyn yn eu helpu i feithrin cydberthnasau gwaith da. Cafwyd enghreifftiau o adborth cadarnhaol iawn gan y plant ifancach y gwnaethom siarad â nhw am eu gweithwyr cymdeithasol. Dywedodd un plentyn wrthym "*They are funny and they always talk with us*". Mynegodd rhai o'r plant yr anawsterau roeddent wedi'u cael wrth feithrin cydberthnasau pan fyddai'r gweithwyr cymdeithasol yn newid yn aml. Dim ond 67% o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg a ddywedodd eu bod yn teimlo bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Yn ogystal, nid oedd lleisiau oedolion yn cael eu cofnodi'n gyson yn yr asesiadau cymesuredd a welsom. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod lleisiau pobl yn greiddiol i'r gwaith y mae'n ei wneud â phobl.**

2.9. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gofalwyr yn cael gwybod fel mater o drefn am ei hawl i gael asesiad, a bod pob aelod o'r staff yn deall hynny, yn cofnodi hynny ac yn ei hyrwyddo. Gellid adlewyrchu effaith gorfforol, emosiynol, ariannol a seicolegol gofalu yn well yn y cofnodion a chefnogi hynny drwy gynnig asesiad gofalwr pendant. Gwnaethom siarad â grŵp o oedolion a oedd yn ofalwyr ac roedd eu profiadau o gymorth yn gymysg. Siaradodd y rhan fwyaf ohonynt mewn ffordd gadarnhaol am eu cydberthynas â'u gweithiwr cymdeithasol, er y gallem hefyd weld effaith yr oedi wrth aros am ofal cartref ac addasiadau therapi galwedigaethol. Mae'n galonogol gweld y bu cynnydd amlwg yn nifer y gofalwyr sydd wedi ymuno â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr yn cydymffurfio'n gyson â'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo llesiant y gofalwr, drwy gynnig asesiadau gofalwyr penodol i bobl er mwyn trafod pa gymorth sydd ei angen arnynt, a chofnodi'r rhesymau dros wrthod asesiad fel mater o drefn.**

2.10. Clywsom fod y diffyg darpariaeth seibiannau byr yn cael effaith andwyol ar ganlyniadau pobl ledled Ceredigion. Mae trefnu seibiannau byr ymlaen llaw er mwyn i oedolion sy'n ofalwyr drefnu gwyliau yn anodd iawn, gan fod darparwyr yn fwy tueddol o lenwi lleoedd gwag â phreswylwyr parhaol. Clywsom dro ar ôl tro fod argaeledd gofal seibiant yn broblem yn y gwasanaethau plant, yn enwedig i blant anabl. **Rhaid i'r**

awdurdod lleol gynyddu'r ddarpariaeth seibiannau byr ledled y sir er mwyn helpu i ddiwallu anghenion llesiant rhieni a gofalwyr.

2.11. Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ffordd bwysig o hysbysu pobl sy'n byw yng Ngheredigion pa mor dda y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu. Nodwn y bu oedi wrth gyhoeddi Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hwn yn faes i'w wella gan fod Rhan 8 o'r Codau Ymarfer ar gyfer Deddf 2014 yn nodi bod yn rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. **Rhaid cyhoeddi'r adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol.**

2.12. Yn ystod 2022, cafwyd diffygion difrifol yn nifer y gweithwyr cymdeithasol a'r therapyddion galwedigaethol oherwydd problemau recriwtio a chadw staff, a marchnad hynod gystadleuol. Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau sylweddol i ymdrin â'r heriau hyn, fel y crybwyllwyd eisoes uchod. Mae hyn wedi arwain at welliant sylweddol yn ei allu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â phlant a theuluoedd. Er gwaethaf hyn, mae'r gweithlu mewn sefyllfa fregus o hyd ac mae angen cynllun ymadael o'r trefniant hwn a gomisiynwyd. **Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried ei strategaeth ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol yn ofalus er mwyn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod ganddo weithlu digonol a chynaliadwy, gyda'r capasiti a'r gallu i gyflawni cyfrifoldebau statudol yn gyson.**

2.13. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr eu bod yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd gan eu rheolwyr. Fodd bynnag, roedd y ffeiliau goruchwylio a welsom yn amrywio o ran cynnwys ac ansawdd. Roedd y trafodaethau i raddau helaeth yn adlewyrchu'r heriau a'r pwysau sy'n gysylltiedig â rhoi cefnogaeth i bobl yn y cyd-destun cyfredol. Nodwyd bod angen gwella'r trefniadau goruchwylio yn ystod ein gwiriad sicrwydd yn 2021. Rydym ar ddeall bod yr awdurdod lleol wedi datblygu polisi goruchwylio yn ddiweddar. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff ymarfer ei oruchwylio mewn modd cadarn gan y tîm rheoli ac y cynhelir sgyrsiau myfyriol, gan gofnodi digon o wybodaeth i ddangos y penderfyniadau a wnaed.**

2.14. Roedd yr adborth gan ymarferwyr am ansawdd ac argaeledd hyfforddiant yn amrywiol. Roedd pobl yn canmol effaith yr hyfforddiant craidd, ond gan nodi bod angen hyfforddiant mwy arbenigol i gefnogi rolau penodol. Rydym ar ddeall bod rhaglen hyfforddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r model LlGO sy'n cynnwys hyfforddiant rheoli i gefnogi swyddi allweddol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ganddo weithlu cymwys a hyderus.**

2.15. Nododd y staff fod cefnogaeth gan gyfoedion o fudd iddynt ac y byddent yn croesawu mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb mewn swyddfeydd. Clywsom y gall

fod yn anodd trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar gyfer gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant oherwydd diffyg cyfleusterau addas. Roedd hyn yn cynnwys cynadleddau amddiffyn plant lle mae'r teulu wedi nodi y byddai'n well ganddynt gyfarfod wyneb yn wyneb. **Mae hyn yn rhywbeth y dylai'r awdurdod lleol ei ystyried.**

2.16. **Rhaid i'r awdurdod lleol lunio a gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd cadarn.** Nodwyd y maes hwn fel maes i'w wella yn ystod ein gwiriad sicrwydd yn 2021 ac, yn dilyn yr arolygiad hwn, mae'n faes i'w wella o hyd. Rydym yn ymwybodol bod fersiwn ddrafft o fframwaith sicrhau ansawdd wedi cael ei lunio. Clywsom hefyd am fuddsoddiad i gefnogi dull yr awdurdod lleol o sicrhau ansawdd a bod unigolion newydd gael eu penodi i swyddi i ganolbwyntio'n benodol ar y maes hwn. Mae WCCIS, sef system rheoli cofnodion yr awdurdod lleol, hefyd wrthi'n cael ei datblygu er mwyn darparu gwybodaeth rheoli perfformiad. Mae'r gwelliannau hyn yn hanfodol er mwyn gallu craffu ar ddata i ysgogi gwelliannau i wasanaethau ac er mwyn sicrhau bod gan reolwyr drosolwg gwell o ymarfer rheng flaen.

2.17. Mae ymateb i gwynion o fewn amserlenni statudol wedi dod yn her gynyddol i'r awdurdod lleol a hyn oherwydd y pwysau yn y gwasanaeth cwynion canolog sy'n rheoli'r broses ar hyn o bryd. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau yr ymatebir i gwynion yn gyson yn unol â'r amserlenni a bennir yn "Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014", a bod y gwersi a ddysgir o ymateb i gwynion yn ysgogi gwelliannau.**

3. Atal

Cryfderau:

3.1. Mae uwch-reolwyr yn deall yn iawn bod y gallu i gael gafael ar ymyriadau cynnar a gwasanaethau atal yn allweddol er mwyn cynnal llesiant a lliniaru'r galw am wasanaethau gofal a reolir. Un o gryfderau Ceredigion yw'r ymrwymiad strategol a rennir i'r agenda ataliol, fel y gwelir yn y penderfyniad i drawsnewid i'r model LlGO. Mae hyn yn sicrhau ffocws ar annog annibyniaeth pobl a helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd pan fydd yn ddiogel iddynt wneud hynny.

3.2. **Gwelsom enghreifftiau o asesiadau ac adroddiadau cynadleddau amddiffyn plant, a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn ac wedi'u hysgrifennu mewn ffordd y gallai'r plentyn neu berson ifanc ei deall**. Mae ansawdd y rhan fwyaf o'r adolygiadau ar gyfer plant yn parhau'n gryfder o'n gwiriad blaenorol yn 2021. Caiff y cofnodion eu hysgrifennu'n uniongyrchol i'r plentyn, gan roi'r ymdeimlad o lythyr wedi'i bersonoli. Mae'r cofnodion hyn yn cydnabod dymuniadau'r plentyn ac yn esbonio canlyniadau a phenderfyniadau ei adolygiad mewn iaith syml.

3.3. Mae'r gweithwyr cymdeithasol yn amlwg yn anelu at feithrin cydberthnasau ystyrlon â phlant a theuluoedd, gyda phwyslais ar weithio'n uniongyrchol â phlant unigol. Gwelsom enghreifftiau o weithwyr cymdeithasol yn chwarae gemau â'r plant, yn lliwio gyda nhw ac yn chwarae pêl-droed er mwyn meithrin cydberthnasau. Gwelsom dystiolaeth gadarn o fyfyrio gan ymarferwyr, chwilfrydedd proffesiynol a phenderfyniadau clir mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

3.4. O dan y model LlGO, mae amrywiaeth o wasanaethau ataliol wedi cael eu cyfuno o dan ambarél y PCC. Mae amrywiaeth a chapasiti'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir gan y trydydd sector, yn gryfder amlwg a nododd ein harolwg staff fod y gweithlu yng Ngheredigion yn eu gwerthfawrogi. Gwelsom enghreifftiau o gyfarfodydd a oedd wedi'u trefnu'n effeithiol er mwyn penderfynu pa wasanaethau sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi teuluoedd. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer canolfannau llesiant fel ‘siop un stop’ ar gyfer gwasanaethau gan gynnwys gwasanaethau hamdden, gwasanaethau tai a gwasanaethau ieuenctid. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n datblygu cyfeiriadur o adnoddau, gwasanaethau a chyfleusterau er mwyn i'r help cynnar sydd ar gael fod yn gliriach i staff a'r cyhoedd.

3.5. Clywsom, fel ymrwymiad i ddatblygu cysylltiadau cymunedol a chefnogi'r agenda ataliol, fod yr awdurdod lleol wedi cynyddu nifer y Cysylltwyr Cymunedol, gan weithio ar sail model ardaloedd bach drwy'r sir, er mwyn ceisio cysylltu pobl â gwasanaethau, gweithgareddau a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn eu hardal leol gyda'r bwriad o gael effaith gadarnhaol ar eu llesiant.

3.6. Er gwaethaf y galw uchel a'r rhestr aros am asesiadau therapi galwedigaethol, gwelsom rai enghreifftiau o allu'r gwasanaeth i ymateb yn brydlon. Roedd hyn yn cynnwys darparu cyfarpar i hybu annibyniaeth pobl gan eu galluogi i fyw yn eu cartrefi yn hirach.

3.7. Mae technoleg gynorthwyol, gan gynnwys darparu oriawr arddwrn i fonitro arwyddion iechyd hanfodol pobl a chwympiadau, yn strategaeth allweddol i gefnogi ymyriadau cynnar ac atal. Clywsom hefyd am brosiectau fel y PCC yn rhoi dyfeisiau ‘Fitbit’ i bobl ifanc i'w hannog i fod yn actif hyd yn oed pan nad oeddent yn ymgysylltu'n uniongyrchol â gwasanaethau. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn datblygu swyddfa i allu arddangos y ddarpariaeth technoleg gynorthwyol.

3.8. Fel sy'n wir am y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae pwysau sylweddol ar gapasiti'r farchnad gofal cartref yng Ngheredigion. Er gwaethaf y galw hwn, mae rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Gwelsom fod y tîm galluogi yn canolbwyntio ar roi cymorth effeithiol i bobl adfer eu hannibyniaeth a’u galluogi i ddychwelyd adref yn unol â'u dymuniadau.

Meysydd i'w Gwella:

3.9. Mae profiadau pobl o gysylltu â'r awdurdod lleol yn amrywio. Dywedodd rhai pobl, gan gynnwys gofalwyr, wrthym am yr anhawster a gawsant wrth geisio siarad a'r person priodol neu dderbyn ymateb amserol.**Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau presennol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael ymateb amserol a chyson pan fyddant yn cysylltu ag ef.**

3.10. Caiff asesiadau ac adolygiadau blynyddol cynlluniau gofal a chymorth llawer o oedolion eu gohirio oherwydd rhestrau aros ar draws timau, gan gynnwys y tîm therapi galwedigaethol. Mae hyn yn peri risg na chaiff anghenion newidiol pobl eu nodi ac nad ymdrinnir â nhw ar y cam cynharaf posibl. Mae hefyd yn colli'r cyfle i wasanaethau ddod i ben pan na fydd eu hangen mwyach, a fyddai'n rhyddhau capasiti. Nododd darparwyr nad ydynt yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i gymryd rhan mewn adolygiadau. **Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd y camau gofynnol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amserlenni ar gyfer adolygiadau statudol a sicrhau y caiff pob gweithiwr proffesiynol perthnasol ei wahodd i gymryd rhan**, gan ei fod yn colli'r cyfle i sicrhau bod ei adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

3.11. Dywedodd gofalwyr ac ymarferwyr wrthym am yr effaith negyddol yr oedd diffyg gofal cartref yn ei gael ledled y sir. Roedd hyn yn cynnwys mwy o bwysau ar ofalwyr di-dâl, pobl yn cael eu rhoi ar restrau aros neu'n cael eu symud i mewn i gartrefi gofal yn ddiangen gan nad oes gofal ar gael iddynt gartref. Er bod y rhan fwyaf o bobl yng Ngheredigion yn cael rhyw fath o ofal, mae hyn yn effeithio ar lif gwasanaethau eraill, er enghraifft gwasanaethau galluogi. Er bod prinder gofal yn broblem a gydnabyddir yn genedlaethol, mae heriau penodol yn gysylltiedig â daearyddiaeth a demograffeg Ceredigion ac mae angen ymateb yn gadarn i'r heriau hyn. Mae Fframwaith Comisiynu Gofal Cartref newydd wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn gweithio gyda phartneriaid strategol i ddatblygu dull o ddarparu gwasanaethau lleol ac ymdrin â'r heriau 'ar sail ardaloedd bach'. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio mewn modd strategol a gweithredol gyda'i bartneriaid i ystyried ffyrdd o liniaru'r sefyllfa.**

3.12. Rhaid gwella'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl â nam ar eu golwg neu eu clyw. Mae rhestr aros am apwyntiad â Swyddog Adsefydlu ar gyfer Unigolion â Nam ar y Golwg a cheir pryderon o ran gwasanaethau Iaith Arwyddion Prydain, gyda phobl yn dweud wrthym nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw grwpiau sydd ar gael i bobl â nam ar eu golwg neu eu clyw. **Dylai'r awdurdod lleol ymgysylltu â phobl sy'n wynebu anawsterau synhwyraidd er mwyn clywed eu llais a dylanwadu ar y broses o ddatblygu gwasanaethau.**

3.13. Mae'r awdurdod lleol yn wynebu cynnydd o ran cysylltiadau ac atgyfeiriadau. O'r cofnodion a welsom, roedd anghenion plant yn cael eu diwallu'n brydlon ar y cyfan. Fodd bynnag, mewn un enghraifft, gwelsom lawer o ailatgyfeiriadau lle y byddai asesiad cronnus pellach o'r wybodaeth wedi bod o fudd. Mae'r awdurdod lleol yn

ymwybodol ac yn bwriadu dadansoddi'r gyfradd ailgyfeirio uchel (45%) ar gyfer plant yr aseswyd nad oes angen ymyriadau statudol pellach arnynt. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn deall y gyfradd ailatgyfeirio uchel, er mwyn i'r arweinwyr allu bod yn dawel eu meddwl bod achosion yn cael eu cau/cyfeirio'n briodol ac er mwyn darparu tystiolaeth glir bod rheolwyr yn goruchwylio'r sefyllfa.**

3.14. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm am hyn yw diffyg ffocws ar ryddhau gorchmynion gofal pan fydd sefyllfaoedd yn sefydlog. Yn gadarnhaol, comisiynwyd cymorth cyfreithiol ychwanegol i ryddhau'r gorchmynion. Gwelsom hefyd enghreifftiau lle y dylid bod wedi rhoi diogeliadau cyfreithiol i blant, ond na chawsant eu rhoi ar waith yn brydlon oherwydd diffyg staff. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i'r broses o ryddhau gorchmynion gofal.**

3.15. Mae argaeledd gofalwyr maeth a chartrefi addas i blant yn her o ystyried y cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Clywsom gan uwch-reolwyr am gynlluniau i gynyddu digonolrwydd cartrefi gofal i blant a'r ddarpariaeth llety â chefnogaeth yng Ngheredigion. **Dylid parhau i roi blaenoriaeth i ymdrechion i recriwtio gofalwyr maeth.**

3.16. Cafwyd sylwadau cymysg gan ddarparwyr y trydydd sector ynghylch trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda rhai yn datgan y gellid cydnabod pa wasanaethau sydd ar gael yn well a gwneud mwy i'w cydgysylltu ar lefel strategol. Gallai fod o fudd i'r awdurdod lleol gynnal ymarfer mapio i ddeall amrywiaeth gwasanaethau'r trydydd sector gyda'r nod o annog mwy o gydweithio.

3.17. Clywsom gan ymarferwyr, rheolwyr timau a Swyddogion Adolygu Annibynnol fod cynlluniau yn ganolog wrth fonitro ymyriadau â phlant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Fodd bynnag, nid oes trefniadau tebyg ar waith ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae nifer y plant yr oedd cynllun gofal a chymorth cyfredol a chynllun llwybr ar waith ar eu cyfer ar ddyddiad eu lleoliad cyntaf yn llawer rhy isel ac mae angen cynyddu'r nifer hwnnw. Mae'r wybodaeth hon am berfformiad yn adlewyrchu'r negeseuon a gawsom gan y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw a ddywedodd wrthym nad oeddent wedi gweld eu cynlluniau. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff cynlluniau eu diweddaru'n unol â safonau statudol.**

4. Llesiant

Cryfderau:

4.1. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu plant a phobl ifanc ym mhob rhan o'r model LlGO. Roedd y gweithwyr cymdeithasol yn dangos dealltwriaeth dda o hanes a sefyllfa bresennol teuluoedd. Gwelsom weithwyr medrus a chymwys a oedd yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion diogelu plant a phobl ifanc. Mae'r penderfyniadau a

wneir mewn perthynas â niwed sylweddol yn glir ac maent yn arwain at gamau gweithredu priodol.

4.2. Caiff plant eu gweld mor aml ag sydd ei angen gan eu gweithiwr cymdeithasol, yn unol â lefelau eu hanghenion a'r risgiau. Cydnabyddir effaith tlodi ar deuluoedd a rhoddir cymorth ariannol rheolaidd i rieni er mwyn iddynt allu mynychu sesiynau cyswllt. Gwelsom enghreifftiau o ymarferwyr yn cynyddu nifer yr ymweliadau, gan gynnwys ymweld ar benwythnosau, ac yn rhoi cymorth dwys er mwyn bwrw ati i leihau risgiau diogelwch. Rhoddodd un rhiant ddisgrifiad pwerus o'r dull gweithredu a oedd ar waith gan nodi bod yr ymarferwyr yn "*understanding, actually supporting me and letting me speak*". Dywedodd hefyd fod adroddiadau cynadleddau bellach yn cydnabod cryfderau yn ogystal â risgiau. Mae hyn yn ategu ein canfyddiadau bod risgiau amddiffyn plant yn cael eu hystyried yn briodol a'u cydbwyso yn erbyn cryfderau teuluoedd.

4.3. Caiff Cynadleddau Grŵp Teulu eu defnyddio'n rheolaidd ac yn effeithiol i ffurfioli'r cymorth a roddir i rieni/gofalwyr ofalu am eu plant yn ddiogel. Yn yr achosion hyn, caiff canlyniadau da yn aml eu cyflawni ar gyfer y plant. Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i gadw plant gyda'u rhieni ac, er nad oedd hynny bob amser yn bosibl, gwelsom ganlyniadau da lle rhoddwyd cyfle i'r plant aros gydag aelodau o'r teulu estynedig. **Yn gadarnhaol, clywsom fod y trefniadau ar gyfer Cynadleddau Grŵp Teulu bellach yn cael eu hehangu i gynnwys gwaith gydag oedolion, er mwyn adlewyrchu'r model LlGO.**

4.4. Gwelsom enghreifftiau rhagorol o ymarferwyr yn cofnodi eu gwaith dadansoddi a'u rhesymeg gan ddangos eu bod wedi deall yr hyn a oedd yn ofynnol er mwyn helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau. Caiff safbwyntiau plant eu hystyried fel rhan o waith cynllunio a gwaith dadansoddi gwybodus gan weithwyr cymdeithasol i ystyried y risg o niwed. Mae'r cofnodion yn tynnu sylw at gryfderau yn ogystal â nodi'r pryderon a phrofiadau bywyd plant. Gwelsom enghreifftiau rhagorol o asesiadau risg amlasiantaeth, gan ddefnyddio dulliau SOS ac amrywiaeth o adnoddau eraill i hwyluso gwaith uniongyrchol.

Meysydd i'w Gwella:

4.5. Mewn perthynas â diogelu oedolion, a oedd yn gryfder yn flaenorol, gwelsom rywfaint o amrywiadau yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welsom, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos arferion diogelu amserol ac effeithiol a oedd yn gydnaws â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, gellid atgyfnerthu'r cofnodion drwy fynd ati'n gyson i nodi tystiolaeth o'r holl gamau rhesymol a gymerwyd i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y broses ddiogelu.

4.6. Nododd asiantaethau partner ddiffyg adborth pan fyddent yn rhoi gwybod am bryderon diogelu mewn perthynas ag oedolion. Clywsom hefyd er bod lefelau presenoldeb da mewn cyfarfodydd strategaeth, fod oedi yn aml wrth ddosbarthu

cofnodion y cyfarfodydd hyn. **Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau presennol i sicrhau y caiff canlyniadau atgyfeiriadau eu rhannu â'r unigolyn a roddodd wybod am yr achos ac y caiff cofnodion eu rhannu â'r unigolion a oedd yn bresennol mewn modd amserol.**

4.7. Clywsom, ar adegau, fod capasiti'r tîm diogelu oedolion i ymgymryd ag ymweliadau ar y cyd â'r heddlu a chwblhau asesiadau galluedd meddyliol amserol wedi bod yn gyfyngedig. Cawsom wybod am gynlluniau i wella capasiti'r tîm diogelu oedolion. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau goruchwylio cadarn ar waith ar gyfer arferion diogelu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.**

4.8. Fel rhan o'r model LlGO newydd, caiff trafodaethau strategaeth bellach eu cynnal gan y tîm diogelu canolog. Ar adegau, nodwyd gennym y dylid bod wedi gwahodd grŵp ehangach o weithwyr proffesiynol i gymryd rhan yn y drafodaeth strategaeth mewn perthynas â phlant, er enghraifft gweithwyr iechyd neu addysg. Dylid bob amser wahodd y gweithiwr cymdeithasol sy'n gweithio gyda'r teulu i gyfrannu gan y bydd gan yr unigolyn hwnnw, yn anochel, gyfoeth o wybodaeth i lywio'r penderfyniadau a wneir. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi prosesau amddiffyn plant ar waith mewn modd amserol **ond rhaid iddo sicrhau y caiff cyfranogiad amlasiantaeth ei ystyried cyn gynted â phosibl.**

4.9. Nododd ein Gwiriad Sicrwydd yn 2021 fod ansawdd asesiadau, cynlluniau gofal a chymorth a chofnodion oedolion yn amrywiol. Rydym wedi dod i'r un casgliad yn dilyn yr arolygiad hwn. Caiff lleisiau llawer o bobl eu clywed, a chaiff y pum maes asesu eu cynnwys yn yr asesiad gofal cymdeithasol arbenigol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n wir mewn llawer o'r asesiadau cymesuredd. Yn ein barn ni, dim ond cofnodi'r prosesau brysbennu, cyfathrebu a phenderfyniadau amlasiantaethol a wneir, yn hytrach na nodi asesiad o'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r ddogfennaeth sy'n gysylltiedig ag asesiadau oedolion er mwyn sicrhau ei bod yn dilyn yr holl ofynion statudol craidd a amlinellir yn Rhan 3 o'r Cod Ymarfer (Asesu Anghenion Unigolion).**

4.10. Wrth gwblhau cofnodion gofal cymdeithasol, mae'n bwysig bod ymarferwyr yn nodi rôl y bobl sy'n cymryd rhan yn y trafodaethau amlasiantaethol. Dim ond enwau cyntaf yr ymarferwyr oedd wedi'u nodi yn llawer o'r asesiadau cymesuredd. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu ei bolisi cofnodi er mwyn cynnwys trefniadau goruchwylio cadarn gan reolwyr i wneud yn siŵr y caiff pob cofnod ei gynnal yn briodol.**

5. Partneriaethau ac Integreiddio

Cryfderau:

5.1. Clywsom negeseuon cyson gadarnhaol am y trefniadau gweithio mewn partneriaeth gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad. Ar lefel strategol, mae'r uwch-arweinwyr yn cydweithio i ymdrin â heriau adrannol trawsbynciol. Disgrifiodd un uwch-reolwr y strwythur uwch-reoli fel '*powerhouse'* o ran cyflawni nodau. Yn allanol, clywsom am gydberthnasau gwaith rhagorol â'r arweinydd strategol yn y gwasanaethau iechyd cymunedol. Gwelsom dystiolaeth o bartneriaethau a oedd o fudd uniongyrchol i bobl, er enghraifft o ran datblygu cartrefi gofal i blant yng Ngheredigion sy'n golygu y gallant aros yn eu cymunedau eu hunain, a phrosiect Borth, sef cyfarfod amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r gefnogaeth cywir ar yr adeg gywir.

5.2. Yn weithredol, mae trefniadau integreiddio a chydweithio effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol yn amlwg ar draws timau. Mae strwythurau ar waith sy'n golygu y gall ceisiadau am ofal a chymorth gael eu hystyried mewn ffordd gydgysylltiedig mewn perthynas â gwasanaethau atal. Mae gwaith integredig â'r gwasanaethau iechyd a ddarperir gan dimau Brysbennu ac Asesu'r Porth Gofal yn sicrhau y gellir cyfeirio pobl tuag at y gweithiwr proffesiynol mwyaf perthnasol mewn modd amserol. Mae hyn yn annog proses o ystyried amgylchiadau pobl a risgiau mewn ffordd gyfannol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau brysbennu yn cael eu gwneud ar sail gwybodaeth. Er enghraifft, o ganlyniad i broses brysbennu effeithiol ac amserol a lwyddodd i atgyfeirio unigolyn at sylw'r tîm galluogi, llwyddwyd i ryddhau'r unigolyn hwnnw'n brydlon o'r ysbyty a rhoi cyfle iddo adennill ei annibyniaeth gartref heb fod angen gofal a chymorth ffurfiol.

5.3. Ceir lefelau presenoldeb da gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol mewn fforymau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys cynadleddau amddiffyn plant. Disgrifiodd ymarferwyr y prosesau ymgysylltu yn ystod y cyfarfodydd hyn fel prosesau 'eithriadol' a nodwyd enghreifftiau lle roedd pediatregwyr yn aml yn bresennol. Clywsom fod adroddiadau cynadleddau yn cael eu rhannu fel mater o drefn, ond mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer rhannu cofnodion cynadleddau mewn modd amserol ar ôl y cynadleddau. Roedd tystiolaeth o drefniadau cydweithio â gweithwyr iechyd i'w gweld yn ffeiliau nifer bach o'r plant anabl a welwyd ac o anghytuno iach rhwng gweithwyr proffesiynol ar brydiau.

5.4. Mae llawer o drefniadau partneriaeth cadarnhaol gan ysgolion. Er enghraifft, gwelsom lwybr clir a oedd yn galluogi plant sy'n derbyn gofal i gael gafael ar gymorth iechyd emosiynol drwy'r Cynorthwydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) a mentrau mwy cyffredinol fel arolygon i dargedu grwpiau penodol o blant a risgiau cyd-destunol ynghylch materion fel fêpio. Mae'n amlwg bod partneriaethau da ar waith rhwng ysgolion a gweithwyr ieuenctid, cwnselwyr ysgol a swyddogion cynhwysiant a bod y partneriaethau hynny o fudd i blant.

5.5. Dywedodd staff gwaith cymdeithasol wrthym fod amseroldeb ac ansawdd cyfraniadau partneriaid at asesiadau yn dda. Gwelsom enghreifftiau o drefniadau

gweithio mewn partneriaeth amlasiantaethol effeithiol ac ymrwymiad i gefnogi teuluoedd a chadw plant o fewn eu teuluoedd.

5.6. Rhoddodd darparwyr adborth cadarnhaol ar eu cydberthnasau â'r tîm comisiynu. Soniwyd y gallai'r broses dendro fod yn heriol, ond nodwyd bod yr awdurdod lleol yn gefnogol ac yn cynnal gweithdai i symleiddio'r broses ac i esbonio'r disgwyliadau. Dywedodd darparwyr hefyd fod y tîm comisiynu yn barod i wrando ar eu barn ac i weithredu er mwyn gwella materion.

Meysydd i'w Gwella:

5.7. Ceir tystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthnasau gwaith proffesiynol â phobl ar sail cydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Fodd bynnag, mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â phobl a gofalwyr ar ganlyniadau a gaiff eu llunio ar y cyd mewn rhai meysydd gwasanaeth. Fel y crybwyllwyd eisoes yn gynharach yn yr adroddiad, mae angen cynnwys asesiadau ac egwyddorion Deddf 2014 fel rhan amlycach o ymarfer, yn enwedig wrth gwblhau asesiadau cymesuredd. Ar adegau, caiff y cymorth ei arwain gan y gwasanaeth a'i roi ar ffurf weithredol yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig a'r canlyniadau y mae'r unigolyn am eu cyflawni.

5.8. Er i ni glywed bod partneriaid a rhanddeiliaid ar lefel Bwrdd Ceredigion Iachach a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn deall gweledigaeth y model LlGO, clywsom hefyd fod angen gwella'r trefniadau cyfathrebu ar sail ehangach. Clywsom fod rhai aelodau o'r cyhoedd wedi hysbysu'r awdurdod lleol nad oeddent yn siŵr beth oedd ystyr y Pyrth ac nad oeddent yn deall pa wasanaethau a oedd wedi'u cynrychioli ganddynt. **Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei strategaeth gyfathrebu er mwyn sicrhau bod ei fodel yn ddealladwy ac yn hygyrch.**

5.9. Ar y cyfan, mae darparwyr o'r farn bod yr awdurdod lleol wedi bod yn glir ynghylch ei weledigaeth o'r model LlGO. Fodd bynnag, nawr bod y broses ailstrwythuro wedi'i chwblhau, nid yw rhai ohonynt yn glir ynghylch y sefyllfa bresennol o fewn rhai timau. Dylai'r awdurdod lleol ystyried rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w bartneriaid am y trefniadau gweithredol presennol.

5.10. Nododd rhai darparwyr nifer y gweithwyr asiantaeth a oedd yn gweithio fel rhan o rai o'r timau, a all effeithio ar ansawdd atgyfeiriadau ac sydd wedi atal cyfarfodydd rhag cael eu cynnal pan nad yw'r gweithwyr wedi'u lleoli yng Ngheredigion. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw penderfyniadau i gyflogi staff asiantaeth sy'n gweithio y tu allan i Geredigion yn achosi unrhyw rwystrau neu oedi o ran rhoi cymorth i bobl.

Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r arferion cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol, er mwyn lledaenu gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

Methodoleg

Gwaith maes

Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar **42** o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain **10** ohonynt er mwyn deall profiad yr unigolyn yn fanylach.

Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

Gwnaethom hefyd:

- gyfweld â chyflogeion yr awdurdod lleol.
- cyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner, yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.
- cynnal grwpiau ffocws gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau'r awdurdod lleol.
- O ganlyniad i'r uchod, llwyddodd AGC i ymgysylltu â **114** o unigolion.

Yn ogystal, gwnaethom;-

- edrych ar ffeiliau goruchwylio staff
- edrych ar ganmoliaethau a chwynion
- edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad
- dosbarthu arolygon i staff, sefydliadau partner a phobl

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

Y Gymraeg

Cyflawnwyd ymrwymiad AGC i ddarparu cynnig rhagweithiol i gynnal rhannau o'r arolygiad yn Gymraeg. Roedd angen y cynnig rhagweithiol yn ystod yr arolygiad hwn.

Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.